



Ymyriadau i gynyddu Teithio Llesol

Defnyddir teithio llesol i ddisgrifio cerdded a beicio ar gyfer teithiau pwrpasol i gyrchfan, ar ei ben ei hun neu mewn cyfuniad â thrafnidiaeth gyhoeddus. Mae lefelau teithio llesol yng Nghymru yn isel ar hyn o bryd o'u cymharu â gwledydd eraill yn Ewrop^a. Mae cynyddu teithio llesol yn brif flaenoriaeth yng Nghymru, gan gyfrannu at gyflawni pob un o saith nod llesiant Cymru.^b Nod y crynodeb tystiolaeth yma yw nodi ac archwilio'r cwestiynau canlynol:

1. Beth yw'r ymyriadau cyffredinol neu grŵp targed/dethol mwyaf effeithiol ar gyfer cynyddu teithio llesol yn y boblogaeth gyffredinol?
2. Pa ymyriadau sydd yn arwain at newid dulliau teithio o ran defnydd y boblogaeth gyffredinol o dtrafnidiaeth, er enghraifft cyfyngu neu leihau'r defnydd o geir a/neu gynyddu'r defnydd o feicio, cerdded neu dtrafnidiaeth gyhoeddus?

✓ Mae'r crynodeb hwn wedi ei ddylunio i:

- Gefnogi'r rheiny sy'n gwneud penderfyniadau am bolisïau neu weithredu cenedlaethol neu leol
- Cefnogi sgysiau archwiliadol am ymyriadau, rhaglenni a gwasanaethau trwy:
 - Arddangos y mathau o ymyriadau sydd wedi cael eu hymchwilio
 - Amlygu'r mathau o ymyriadau sydd yn dangos canlyniadau addawol ac yn haeddu archwiliad pellach sy'n benodol i gyd-destun
 - Amlygu'r mathau o ymyriadau sydd yn llai tebygol o gael eu cefnogi gan y dystiolaeth ac y dylid eu hosgoi ar hyn o bryd.

✗ Nid yw'r crynodeb hwn wedi ei ddylunio i:

- Roi asesiad ansawdd a chyd-destunol manwl o'r sail dystiolaeth ar gyfer pob ymyrraeth ac ni ddylid ei ddefnyddio ar ei ben ei hun i ddyrannu adnoddau
- Ystyried blaenoriaethau sy'n cystadlu â'i gilydd, addasu i gyd-destun lleol, meintiau effaith na chostau
- Cynnwys yr holl ymyriadau posibl.

Yn seiliedig ar ddata a echdynnwyd o'r ffynonellau a nodwyd, mae'r ymyriadau wedi cael eu categorio i'r rheiny y mae'r dystiolaeth yn awgrymu allai fod yn effeithiol, gallai fod yn aneffeithiol a'r rheiny lle mae'r dystiolaeth yn amhendant (gweler y'r allwedd raddio tud.2).

Nododd llawer o'r astudiaethau ganlyniadau eraill hefyd fel cynnydd mewn gweithgaredd corfforol sydd heb gael eu hadrodd yn y crynodeb yma o dystiolaeth testun. Awgrymir felly, os ydych yn bwriadu gweithredu unrhyw un o'r ymyriadau hyn, eich bod yn craffu ymhellach ar y sail dystiolaeth i nodi unrhyw ganlyniadau nas bwriadwyd, neu unrhyw newidiadau cadarnhaol mewn meysydd neu

^a Llywodraeth Cymru (2021). Canllawiau'r Ddeddf Teithio Llesol, Gorffennaf 2021. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. <https://gov.wales/sites/default/files/publications/2022-01/active-travel-act-guidance.pdf>

^b Llywodraeth Cymru (2021). Canllawiau'r Ddeddf Teithio Llesol, Gorffennaf 2021. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. <https://gov.wales/sites/default/files/publications/2022-01/active-travel-act-guidance.pdf>



ganlyniadau eraill (er enghraifft, yn lleihau tagfeydd traffig, lleihau damweiniau ar y ffyrdd neu'n cynyddu lefelau gweithgaredd corfforol cyffredinol).

Ynglŷn â'r ddogfen hon

Mae'r datganiadau uchod wedi cael eu llunio gan ddefnyddio tystiolaeth o 87 o astudiaethau sylfaenol oedd yn bodloni ein meini prawf cynhwysiant ar gyfer y crynodeb tystiolaeth yma^c. Er mwyn ystyried eu cynnwys roedd yn rhaid eu bod yn cynnwys mesur canlyniad teithio llesol (fel cerdded neu feicio) ar gyfer taith bwrpasol i gyrchfan, neu newid dull o deithio (er enghraifft, gostyngiad yn y defnydd o gar gyda chynnydd cyfatebol mewn cerdded). Mae'r datganiadau wedi cael eu categorïddio yn ôl lleoliad:

1. [Ymyriadau yn y boblogaeth gyffredinol a/neu'r gymuned](#)
2. [Mentrau teithio i'r ysgol](#)
3. [Mentrau teithio i'r gweithle](#)

Allwedd Graddio Tystiolaeth:

Mae'r dystiolaeth yn awgrymu y gallai'r ymyrraeth gael ei gweithredu: Cefnogir yr ymyrraeth gan dystiolaeth o ansawdd da neu gymedrol o'i heffeithiolrwydd	
Esboniad: Caiff y rhan fwyaf o astudiaethau eu harfarnu fel rhai o ansawdd da neu gymedrol ac yn dangos effaith o blaid yr ymyrraeth	Ystyriaethau pellach: Mae angen archwiliadau pellach sy'n benodol i gyd-destun (cymhwysedd i Gymru). Ystyriwch werthuso trylwyr os ydych yn gweithredu'r mathau hyn o raglenni
Mae angen mwy o ymchwil: Mae'r sail dystiolaeth ar gyfer y math yma o ymyrraeth yn cynnwys astudiaethau o ansawdd gwael yn bennaf	
Esboniad: Caiff y rhan fwyaf o'r astudiaethau eu harfarnu i fod o ansawdd gwael, ond yn dal yn dangos effaith o blaid yr ymyrraeth NEU Caiff y rhan fwyaf o'r astudiaethau eu harfarnu i fod o ansawdd gwael ac heb unrhyw effaith	Ystyriaethau pellach: Mae angen ymchwil sylfaenol fwy cadarn a gwerthusiad trylwyr
Mae angen mwy o ymchwil: Mae'r sail dystiolaeth yn anghyson. Gall fod rhywfaint o dystiolaeth yn cefnogi'r defnydd o'r ymyrraeth yma, ond nid yw'n bendant	
Esboniad: Mae canlyniadau astudiaethau yn anghyson heb unrhyw fwyafirif clir o blaid neu ddim o blaid yr ymyrraeth, waeth beth fo'r ansawdd	Ystyriaethau pellach: Mae angen ymchwil sylfaenol fwy cadarn a gwerthusiad trylwyr
Mae angen mwy o ymchwil: Mae prinder tystiolaeth ar gyfer yr ymyrraeth yma	
Esboniad: Dim ond un astudiaeth sydd wedi cael ei nodi ar gyfer yr ymyrraeth yma (waeth beth fo'i ansawdd)	Ystyriaethau pellach: Mae angen mwy o ymchwil sylfaenol a gwerthusiad trylwyr

^c Gall rhai astudiaethau ymddangos mewn mwy nag un datganiad os ydynt yn asesu ymyriadau lluosog.



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Iechyd Cyhoeddus
Cymru
Public Health
Wales

Gwasanaeth Tystiolaeth
Evidence Service

Mae'r dystiolaeth yn awgrymu na ddylid gweithredu'r ymyrraeth:

Mae tystiolaeth o ansawdd da neu gymedrol i awgrymu bod yr ymyrraeth yma'n debygol o fod yn aneffeithiol

Esboniad:

Caiff y rhan fwyaf o astudiaethau eu harfarnu i fod o ansawdd da neu gymedrol ond yn dangos dim effaith o'r ymyrraeth

Ystyriaethau pellach:

Mae'r ymyriadau hyn yn llai tebygol o gael eu cefnogi gan dystiolaeth a dylid eu hosgoi ar hyn o bryd



Ymyriadau yn y boblogaeth gyffredinol a/neu'r gymuned

Gallai mentrau aml-gydran tref neu ar draws rhanbarth (fel trefi arddangos beicio) gynyddu beicio i'r ysgol neu feicio i'r gwaith ^{18, 32, 69}

Ymyrraeth: Gwerthusodd tair astudiaeth o ansawdd cymedrol ymyriadau trefi arddangos beicio. Nod y rhain oedd ysgogi lefelau beicio trwy ddull aml-gydran. Roedd y cydrannau'n cynnwys uwchraddio seilwaith ffisegol (fel cyfleusterau beicio newydd) i gynyddu mynediad at drafnidiaeth gyhoeddus, neu o fewn ysgolion, ac elfennau newid ymddygiad fel cynlluniau beicio a marchnata sy'n hyrwyddo. Roedd un astudiaeth hefyd yn cynnwys swyddogion 'Beicio' mewn ysgolion.

Ansawdd y dystiolaeth: Nododd bob un o'r tair astudiaeth gynnydd mewn beicio ar gyfer teithio llesol i'r gwaith neu'r ysgol, er bod yr arwyddocâd ystadegol yn aneglur mewn un astudiaeth.

Cymhwysedd: Cynhaliwyd dwy o'r astudiaethau yn y DU ac un yn UDA. Felly, dim ond cymhwysedd rhannol oedd i Gymru, ond dylid ystyried amgylchedd cyd-destunol y gwledydd gwahanol.

Os yn parhau â'r ymyrraeth yma: Awgrymir bod archwiliad manwl o'r sail dystiolaeth yn cael ei gynnal, gan ystyried cyd-destun yr ymyrraeth, i gefnogi ei dylunio a'i gweithredu. Dylid cynnal gwerthusiad trylwyr o effaith hefyd.

Gallai ymyriadau ymddygiadol sy'n defnyddio addysg neu hyrwyddo gynyddu teithio llesol. ^{11, 15, 25, 41, 61, 63, 71, 82, 83}

Ymyrraeth: Nodwyd naw astudiaeth (dwy o ansawdd da, chwech o ansawdd cymedrol ac un o ansawdd gwael) wrth archwilio ymyriadau ymddygiad. Nod pob un o'r astudiaethau oedd cynyddu teithio llesol trwy addysg a hyrwyddo ac nid oeddent o natur isadeiledd. Roedd y nodweddion ymyrraeth yn amrywio rhwng astudiaethau. Roedd y nodweddion addysg yn cynnwys dosbarthu deunydd addysgol a phecynnau adnoddau, seminarau, a hyfforddiant cydlynwyr eco-deithio. Y nodweddion hyrwyddo oedd digwyddiadau dathlu, teithiau tywys, dosbarthu deunydd hyrwyddo a strategaethau marchnata teithio unigol. Defnyddiwyd technegau newid ymddygiad eraill mewn rhai astudiaethau (fel awgrymiadau a gosod nodau).

Ansawdd y dystiolaeth: Yn gyffredinol, dangosodd y rhan fwyaf o astudiaethau effaith o blaid yr ymyrraeth ar draws amrywiaeth o ganlyniadau teithio llesol (fel cerdded a beicio pwrpasol). Fodd bynnag, dylid nodi na wnaeth pedair allan o naw astudiaeth (un o ansawdd



uchel a thair o ansawdd cymedrol) adrodd a oedd eu canfyddiadau yn arwyddocaol yn ystadegol.

Cymhwysedd: Cynhaliwyd pedair astudiaeth yn y DU, tair yn Awstralia, un yn UDA ac un yn Japan. Felly, gallai'r ymyriadau fod â chymhwysedd rhannol i Gymru, ond dylid ystyried amgylchedd cyd-destunol y gwledydd gwahanol.

Os ydych yn parhau â'r ymyrraeth yma: Awgrymir bod archwiliad manwl o'r sail dystiolaeth yn cael ei gynnal, i gefnogi dylunio a gweithredu. Dylai gwerthusiad trylwyr o effaith gael ei gynnal hefyd.

Mae gan ymyriadau cymunedol aml-gydran yn cynnwys gwelliannau i'r amgylchedd adeiledig / seilwaith a mentrau newid ymddygiad nad ydynt yn ymwneud â seilwaith sail dystiolaeth anghyson.^{37, 46, 48}

Ymyrraeth: Archwiliodd tair astudiaeth (un o ansawdd cymedrol, dwy o ansawdd gwael) ymyriadau aml-gydran ar draws y gymuned. Roedd un yn canolbwyntio ar gynyddu cerdded a'r ddwy arall ar gynyddu teithio llesol a theithio llai mewn cerbydau preifat. Roedd y cydrannau ymyrraeth yn cynnwys nodweddion fel gwella llwybrau cerdded a beicio, gweithgareddau ac ymgyrchoedd hyrwyddo, a grwpiau cerdded gyda chymhellion ychwanegol ar gyfer cyfranogiad/cyrraedd nodau. Roedd cydrannau eraill yn cynnwys diwrnodau hyrwyddo (fel diwrnodau cymudo clyfar) a chyllid ar gyfer gwelliannau i seilwaith (e.e. rheseli beiciau, palmentydd). Roedd un astudiaeth hefyd yn cynnwys rhaglen llwybrau diogel i'r ysgol fel rhan o'r ymyrraeth gymunedol ehangach.

Tystiolaeth o ansawdd: Roedd yr astudiaethau yn amrywio o ran ansawdd a nodwyd effeithiolrwydd cymysg o ran canlyniadau teithio llesol.

Cymhwysedd: Cynhaliwyd dwy astudiaeth yn UDA ac un yn Iwerddon felly mae angen rhoi ystyriaethau pellach i'r cwestiwn a fyddai'r ymyriadau hyn â chymhwysedd i Gymru.

Os ydych yn parhau gyda'r ymyrraeth yma: Awgrymir bod angen mwy o ymchwil gadarn a gwerthusiad trylwyr o effaith.



Gallai ymyriadau aml-gydran i wella llwybrau a seilwaith trafndiaeth gyhoeddus a gwella cysylltiadau cerdded a beicio (fel llwybrau dim traffig, lonydd beiciau, a gwella palmentydd) gynyddu teithio llesol, ond mae'r dystiolaeth o ansawdd gwael yn bennaf.^{8, 35, 36, 60, 68}

Ymyrraeth: Archwiliodd pum astudiaeth o ansawdd gwael effeithiolrwydd y tair ymyrraeth aml-gydran amgylchedd adeiledig. Archwiliodd yr astudiaethau effaith gwella llwybrau trafndiaeth gyhoeddus gyda chysylltiadau cerdded a beicio gwell ar ganlyniadau teithio llesol. Gwerthusodd tair o'r astudiaethau yr un ymyrraeth (llwybr bysiau tywys Caergrawnt: llwybr neilltuol i fysiau yn unig ar drac pwrpasol) ond ar adegau gwahanol a chan ddefnyddio mesurau canlyniad gwahanol. Er bod cydrannau'r ymyriadau'n gwahaniaethu, roedd pob un yn cyfuno gwelliannau i drafndiaeth gyhoeddus (fel ymestyn llinellau trên, rhwydweithiau bws neu safleoedd 'TRAX' preswyl newydd) gyda chysylltiadau beicio a cherdded gwell (fel llwybrau cerdded a beicio heb draffig, llwybrau troed gwell, a lonydd beicio newydd).

Ansawdd y dystiolaeth: Dangosodd y rhan fwyaf o'r astudiaethau effaith o blaid yr ymyrraeth ar gyfer o leiaf un mesur o deithio llesol; fodd bynnag, graddiwyd yr astudiaethau i gyd i fod o ansawdd gwael.

Cymhwysedd: Cynhaliwyd dwy astudiaeth yn UDA, gyda'r dair oedd yn archwilio llwybr bysiau tywys Caergrawnt yn cael eu cynnal yn y DU. Felly, roedd gan yr ymyriadau gymhwysedd rhannol i Gymru, ond dylid ystyried amgylchedd cyd-destunol y gwledydd gwahanol.

Os ydych yn parhau â'r ymyrraeth yma: Awgrymir bod angen ymchwil gadarn bellach a gwerthusiad trylwyr.

Mae gan ymyriadau i wella cysylltedd ardaloedd trwy greu/uwchraddio cysylltiadau cerdded a beicio sail dystiolaeth anghyson.^{28, 30, 33, 34, 39, 47}

Ymyrraeth: Edrychodd chwe astudiaeth o ansawdd gwael ar wella cysylltiadau beicio a cherdded. Roeddent i gyd yn ceisio cynyddu cysylltedd ardaloedd (fel cymdogaethau sy'n cysylltu ag ardaloedd masnachol) trwy wella seilwaith. Roedd cydrannau'r ymyrraeth yn cynnwys adeiladu llwybrau a phontydd heb draffig a gwella lonydd beicio ar ac oddi ar y stryd.

Ansawdd y dystiolaeth: Roedd y canlyniadau'n anghyson gyda thair astudiaeth yn nodi effeithiau cadarnhaol sylweddol ar gyfer canlyniadau teithio llesol. Fodd bynnag, cafodd yr holl astudiaethau eu harfarnu i fod o ansawdd gwael.



Cymhwysedd: Cynhaliwyd pump o'r chwe astudiaeth yn UDA, gydag un astudiaeth yn cael ei chynnal yn y DU. Felly, roedd gan yr ymyriadau gymhwysedd rhannol i Gymru, ond dylid ystyried amgylchedd cyd-destunol y gwledydd gwahanol.

Os ydych yn parhau â'r ymyrraeth yma: Awgrymir bod angen ymchwil gadarn bellach a gwerthusiad trylwyr.

Mae sail dystiolaeth anghyson i **ymyriadau sydd yn gwella llwybrau/seilwaith rheilffyrdd yma.**^{6, 9}

Ymyrraeth: Gwerthusodd dwy astudiaeth (un o ansawdd cymedrol ac un o ansawdd gwael) welliannau i lwybrau rheilffyrdd trafnidiaeth gyhoeddus. Archwiliodd un astudiaeth o ansawdd cymedrol effaith llinell rheilffordd newydd ac edrychodd un astudiaeth o ansawdd gwael ar ychwanegu safle rheilffordd newydd i lwybr presennol.

Ansawdd y dystiolaeth: Roedd canlyniadau ac ansawdd yr astudiaethau gafodd eu cynnwys yn anghyson. Canfu un astudiaeth nad oedd ychwanegu llinell rheilffordd newydd yn cael unrhyw effaith arwyddocaol, a chanfu'r llall gynnydd arwyddocaol mewn canlyniadau teithio llesol wrth ychwanegu safle rheilffordd newydd.

Cymhwysedd: Cynhaliwyd y ddwy astudiaeth yn UDA felly dylid ystyried ymhellach a fyddai ganddynt gymhwysedd i Gymru.

Os ydych yn parhau gyda'r ymyrraeth yma: Awgrymir bod angen ymchwil gadarn bellach a gwerthusiad trylwyr o effaith.

Mae gan **ymyriadau cymdogaeth aml-gydran gyda'r nod o gynyddu teithio llesol** sail dystiolaeth anghyson.^{13, 27, 45}

Ymyrraeth: Archwiliodd tair astudiaeth (dwy gymedrol, un o ansawdd gwael) ymyriadau cymdogaeth aml-gydran. Roedd dwy yn deillio o'r un ymyrraeth gyda nodau, mesurau canlyniad a hyd gwahanol. Roedd pob astudiaeth yn aml-gydran yn ei natur gyda mynediad hawdd at drafnidiaeth gyhoeddus, ysgolion, cyfleusterau cyhoeddus a hamdden, 2) digon o fannau agored a thir parc, 3) gwyliadwriaeth gynyddol ar strydoedd, mewn parciau, a hybiau gweithgaredd.

Ansawdd y dystiolaeth: Roedd y canlyniadau'n anghyson. Dangosodd un astudiaeth gynnydd arwyddocaol mewn teithio llesol i leoliadau gweithgaredd corfforol, ond ni



ddangosodd y ddwy astudiaeth oedd yn gysylltiedig unrhyw effaith arwyddocaol ar gynyddu cerdded ar gyfer trafnidiaeth.

Cymhwysedd: Cynhaliwyd dwy astudiaeth yn Awstralia ac un yn UDA. Felly, gallai fod cymhwysedd gan y ddwy ymyrraeth i Gymru, ond dylid ystyried amgylchedd cyd-destunol y gwledydd gwahanol

Os ydych yn parhau gyda'r ymyrraeth yma: Awgrymir bod angen ymchwil gadarn bellach a gwerthusiad trylwyr o effaith.

Ymyriadau mewn lleoliadau penodol: Mentrau teithio i'r ysgol

Gallai **ymyriadau bws cerdded i'r ysgol** fod yn effeithiol yn cynyddu lefelau cerdded i'r ysgol ymysg plant.^{3, 43, 49, 56, 57, 64, 84}

Ymyrraeth: Archwiliodd saith astudiaeth (un o ansawdd da, pedair cymedrol a dwy o ansawdd gwael) effeithiolrwydd ymyrraeth bws cerdded i'r ysgol. Roedd yr ymyrraeth yn cynnwys grwpiau o blant yn cerdded i'r ysgol wedi eu gwarchod gan sawl gwirfoddolwr oedd yn rhieni. Rhoddodd yr astudiaethau amrywiaeth eang o weithredoedd ar waith ynghyd â hyn, yn cynnwys grwpiau cerdded wedi eu trefnu'n anffurfiol gan wirfoddolwyr oedd yn rhieni, newidiadau i bolisiâu mewn ysgolion yn annog newid dulliau teithio o'r car i gerdded, cyfranogiad adrannau priffyrdd awdurdodau lleol ar gyfer cynllunio llwybrau, gwelliannau i seilwaith fel golau stryd, digwyddiadau hyrwyddo a chymhellion.

Ansawdd y dystiolaeth: Roedd y rhan fwyaf o'r astudiaethau o ansawdd da neu gymedrol, a phob un yn ffafrio'r ymyrraeth, ond dylid nodi na wnaeth pedair allan o'r saith astudiaeth (tri o ansawdd cymedrol, un o ansawdd gwael) adrodd a oedd eu canfyddiadau yn arwyddocaol yn ystadegol.

Cymhwysedd: Cynhaliwyd tair astudiaeth yn y DU, un yn UDA ac un yng Ngwlad Belg. Mae'r ymyrraeth felly yn debygol o fod â chymhwysedd i Gymru, ond dylid ystyried archwiliad pellach sy'n benodol i gyd-destun.

Os ydych yn parhau â'r ymyrraeth yma: Awgrymir bod archwiliad manwl o'r sail dystiolaeth yn cael ei gynnal, gan ystyried cyd-destun yr ymyrraeth, i gefnogi ei dylunio a'i gweithredu. Dylid cynnal gwerthusiad trylwyr o effaith hefyd.



Mae gan **ymyriadau'n hyrwyddo beicio i'r ysgol** sail dystiolaeth angysion.^{20, 21, 24, 26, 55, 64, 66, 79, 80}

Ymyrraeth: Edrychodd naw astudiaeth (saith o ansawdd cymedrol a dau o ansawdd gwael) ar effeithiolrwydd ymyriadau sy'n hyrwyddo beicio i'r ysgol yn unig. Wedi eu sefydlu yn y cynllun teithio i'r ysgol, roedd yr astudiaethau hyn yn gweithredu amrywiaeth eang o ymyriadau oedd yn amrywio o ran cymhlethdod. Roedd hyn yn cynnwys ymyriadau syml fel trenau beicio o blant yn beicio i'r ysgol o dan oruchwyliaeth oedolion, i ymyriadau aml-gydran mwy cymhleth fel prosiectau arddangos Sustrans sydd yn ymgorffori gwelliannau seilwaith a strategaethau newid ymddygiad sylweddol. Roedd newidiadau i seilwaith yn cynnwys gwelliannau i lwybrau beicio, gosod rheseli beiciau a mynedfeydd gwahanol i feicwyr a mynediad mwy diogel i feiciau yn yr ysgol. Roedd cydrannau newid ymddygiad yn cynnwys addysg diogelwch, newid y cwricwlwm, defnyddio offer dysgu, trefnu diwrnodau hyrwyddo a digwyddiadau hyrwyddo, a chynnig cymhellion i ddechrau beicio.

Ansawdd y Dystiolaeth: Mae'r rhan fwyaf o'r astudiaethau o ansawdd cymedrol ac yn awgrymu bod ymyriadau o'r fath yn effeithiol yn cynyddu ymgymeriad beicio i'r ysgol ymysg plant oed ysgol. Fodd bynnag, dim ond y ddwy astudiaeth fwyaf diweddar oedd yn adrodd a oedd eu canfyddiadau yn arwyddocaol yn ystadegol. O'r rhain, canfu un astudiaeth gynnydd arwyddocaol yng nghanran gymedrig cymudo dyddiol i'r ysgol trwy feicio yn y grŵp ymyrraeth o'i gymharu â'r grŵp rheoli. Canfu'r ail nad oedd yr ymyrraeth yn cael unrhyw effaith arwyddocaol ar feicio i'r ysgol. Gallai archwiliad pellach o'r saith astudiaeth sydd yn weddill na wnaeth adrodd ar arwyddocâd roi mwy o sicrwydd o ran effaith yr ymyrraeth yma.

Cymhwysedd: Cynhaliwyd saith astudiaeth yn y DU, un yn UDA, ac un arall yng Ngwlad Belg. Felly, gallai'r ymyrraeth fod â chymhwysedd rhannol i Gymru, ond dylid ystyried archwiliad pellach sy'n benodol i gyd-destun.

Os ydych yn parhau â'r ymyrraeth yma: Awgrymir bod angen archwiliad pellach o'r sail dystiolaeth i roi mwy o sicrwydd o effeithiolrwydd yr ymyrraeth, neu ymchwil gadarn bellach a gwerthusiad trylwyr o'r effaith.

Gallai **ymyriadau newid ymddygiad sydd yn ymgorffori dysgu ar draws y cwricwlwm mewn cynlluniau teithio i'r ysgol** gynyddu teithio llesol i'r ysgol, ond mae'r dystiolaeth o ansawdd gwael yn bennaf.^{29, 42, 53, 54, 64, 74, 75, 76, 81, 85}

Ymyrraeth: Gwerthusodd deg astudiaeth (tair o ansawdd cymedrol a saith o ansawdd gwael) effeithiolrwydd ymyriadau sy'n sefydlu newid ymddygiad mewn cynlluniau teithio i'r ysgol trwy ddysgu ar draws y cwricwlwm. Roedd yr astudiaethau yn gweithredu strategaethau newid



ymddygiad gydag addysg yn yr ystafell ddosbarth. Roedd y rhain yn cynnwys hyfforddi athrawon i gynnal gwersi a gweithgareddau yn canolbwyntio ar fuddion iechyd gweithgaredd corfforol, ymwybyddiaeth amgylcheddol a hyfforddiant diogelwch ar y ffyrdd; pecynnau addysg i blant a'u rhieni; deunyddiau hyrwyddo yn cynnwys gwefan ymgyrchu, taflenni ar fuddion cerdded/beicio, baneri, sticeri, tystysgrifau; yn ogystal ag addysgu hunan-fonitro, gosod nodau a sefydlu systemau cymorth cymdeithasol i fyfyrwyr.

Ansawdd y dystiolaeth: Dangosodd yr astudiaethau effaith gyffredinol o blaid yr ymyrraeth; fodd bynnag, roedd y rhan fwyaf o ansawdd methodolegol gwael.

Cymhwysedd: Cynhaliwyd pedair astudiaeth yn y DU, dwy yn Sbaen, ac un yn yr Almaen, Ffrainc, Awstralia a Brasil. Felly, gallai'r ymyrraeth fod â chymhwysedd rhannol i Gymru, ond dylid ystyried archwiliad pellach sy'n benodol i gyd-destun.

Os ydych yn parhau â'r ymyrraeth yma: Awgrymir bod angen ymchwil gadarn bellach a gwerthusiad trylwyr o'r effaith.

Gallai mentrau sydd yn debyg i raglenni llwybrau diogel i'r ysgol gynyddu teithio llesol i'r ysgol ond mae'r dystiolaeth o ansawdd gwael yn bennaf.^{5, 10, 12, 14, 19, 22, 23, 37, 38, 40, 48, 50, 51, 52, 64, 65, 67, 72, 73, 77, 78, 86, 87}

Ymyrraeth: Archwiliodd dwy ar hugain o astudiaethau (naw o ansawdd cymedrol a 13 o ansawdd gwael) effeithiolrwydd y rhaglen Llwybrau Diogel i'r Ysgol (SRTS) neu fentrau aml-gydran tebyg. Mae SRTS yn rhaglen genedlaethol yn hyrwyddo opsiynau diogel ar gyfer cerdded a beicio i'r ysgol yn UDA. Roedd yr ymyriadau yn y categori hwn yn cynnwys newidiadau polisi ar lefelau lleol/ rhanbarthol ac uwchraddio seilwaith ffisegol, ynghyd â strategaethau newid ymddygiad i wella mynediad at deithio llesol ac agweddau tuag ato ymysg plant sydd yn mynd i'r ysgol. Roedd y rhain yn cynnwys cyllid/ grantiau ar gyfer ysgolion; gwelliannau i lwybrau beicio a cherdded; gorfodi parthau lleihau cyflymder, arwyddion traffig a pharthau gollwng o'r car; gosod rheseli beiciau, loceri mewn ysgolion a chysgodfannau; addysg diogelwch; cwricwlwm; offer; trefnu diwrnodau hyrwyddo a digwyddiadau hyrwyddo; a rhoi cymhellion i ymgymryd â theithio llesol. Mae mentrau o'r fath hefyd yn cynnwys cyflwyno amrywiaeth o fentrau teithio i'r ysgol cysylltiedig, fel bysiau cerdded, neu hyrwyddo beicio. Roedd y rhan fwyaf o'r astudiaethau (yn UDA a ddim yn UDA) yn werthusiadau sawl ysgol, mawr yn bennaf (ysgolion cynradd a/neu uwchradd) gydag un astudiaeth yn UDA yn gwerthuso 125 o brosiectau SRTS ar draws 350 o ysgolion. Archwiliodd bob un yn UDA y rhaglen SRTS, gyda rhai'n ei chymharu â rhaglenni eraill neu gydrannau ychwanegol.

Ansawdd y dystiolaeth: Dangosodd y rhan fwyaf o'r astudiaethau effaith o blaid yr ymyrraeth, ond roedd llawer heb adrodd a oedd eu canfyddiadau yn arwyddocaol yn ystadegol. Roedd y rhan fwyaf o'r astudiaethau o ansawdd gwael hefyd.



Cymhwysedd: Cynhaliwyd saith astudiaeth yn UDA, pump yn y DU, pedair yn Awstralia, dwy yng Nghanada, dwy yn Denmarc ac un yn Seland Newydd ac Iwerddon. Felly, gallai'r ymyrraeth fod â chymhwysedd rhannol i Gymru, ond dylid ystyried archwiliad pellach yn benodol i gyd-destun.

Os ydych yn parhau â'r ymyrraeth hon: Awgrymir bod angen ymchwil gadarn bellach a gwerthusiad trylwyr o effaith.

Mae prinder tystiolaeth ar gyfer **diwrnodau dynodedig teithio llesol i'r ysgol a chhydrannau hyrwyddo ychwanegol**.¹²

Ymyrraeth: Asesodd un astudiaeth o ansawdd gwael effeithiolrwydd diwrnod neilltuol teithio llesol gweithredol oedd yn dathlu rhaglen llwybrau diogel i'r ysgol ar lefel talaith yn UDA, wedi ei gyfuno â strategaethau ychwanegol ar lefel ysgol i hyrwyddo teithio llesol mewn un ysgol. Cafodd y diwrnod teithio llesol ei hyrwyddo ar draws y dalaith trwy'r cyfryngau, ond defnyddiodd yr ysgol ymyrraeth strategaethau ychwanegol i annog teithio llesol i'r ysgol ar y diwrnod teithio llesol. Roedd y rhain yn cynnwys cyhoeddiadau rheolaidd yn yr ysgol yn y bore, nodiadau ysgrifenedig i'r rhieni, negeseuon ffôn wedi eu recordio i gartrefi'r myfyrwyr a rhoi sticer cyfranogiad i'r rheiny oedd wedi teithio'n llesol i'r ysgol ar ddiwrnod y digwyddiad.

Ansawdd y dystiolaeth: Roedd ansawdd yr astudiaeth yn wael ond canfuodd gynnydd oedd yn arwyddocaol yn ystadegol mewn teithio llesol yn ysgol yr ymyrraeth o'i chymharu ag ysgolion rheoli ar ddiwrnod y digwyddiad.

Cymhwysedd: Cynhaliwyd yr ymyrraeth yn UDA, felly dylid ystyried archwiliad pellach sy'n benodol i gyd-destun.

Os byddwch yn parhau â'r ymyrraeth yma: Awgrymir bod ymchwil gadarn bellach a gwerthusiad trylwyr yn cael eu cynnal i fynd i'r afael â'r bwlch yn y sail dystiolaeth.

Mae gan **ymagweddu ag ysgogiad cymhellion i hyrwyddo teithio llesol i'r ysgol** sail dystiolaeth anghyson.^{17, 31, 64}

Ymyrraeth: Asesodd tair astudiaeth o ansawdd gwael effeithiolrwydd ymagweddu wedi eu hysgogi gan gymhellion i annog teithio llesol ymysg plant ysgol. Gwerthusodd dwy astudiaeth gynlluniau yn rhoi cymhelliant cyrhaeddiad uchaf unigol a/ neu ddosbarth o ran teithio llesol. Roedd y cymhellion yn cynnwys sticeri, bathodynau, tystysgrifau, gwobrau neu gael eu cynnwys mewn raffl wythnosol am dalebau rhodd. Asesodd y drydedd astudiaeth



effeithiolrwydd ymyrraeth yn seiliedig ar dechnoleg oedd yn defnyddio cystadlaethau lle'r oedd ysgolion yn cystadlu yn erbyn ei gilydd, gyda'r ysgol fuddugol yn cael cyllid i'w wario ar gyfarpar chwaraeon, llyfrau, neu adnoddau. Roedd yr ysgolion hefyd yn gallu cystadlu yn erbyn grwpiau eraill oedd yn cymryd rhan yn yr ymyrraeth yn cynnwys gweithleoedd lleol ar gyfer gwobrau wythnosol wedi eu rhoi gan fusnesau lleol. Yn ogystal â defnyddio cymhellion, roedd yr astudiaeth hon hefyd yn defnyddio cyfres o ddigwyddiadau hyrwyddo rheolaidd i hyrwyddo diddordeb yn y cynllun ac i annog cyfranogiad.

Ansawdd y dystiolaeth: Roedd yr astudiaethau gafodd eu cynnwys o ansawdd gwael ac roedd y canlyniadau'n anghyson, gydag un yn awgrymu bod yr ymyrraeth wedi cynyddu cerdded i'r ysgol, ond heb adrodd a oedd yr effaith yn arwyddocaol yn ystadegol.

Cymhwysedd: Cynhaliwyd yr astudiaethau gafodd eu cynnwys yn y DU i gyd, sy'n awgrymu y gallai'r ymyrraeth fod â chymhwysedd i Gymru.

Os byddwch yn parhau â'r ymyrraeth yma: Awgrymir bod angen ymchwil gadarn bellach a gwerthusiad trylwyr o'r effaith.

Mentrau teithio i'r gweithle

Gallai ymgyrchoedd cenedlaethol yn y cyfryngau yn targedu gweithwyr fod yn effeithiol yn cynyddu teithio llesol i'r gwaith.^{58, 59}

Ymyrraeth: edrychodd dwy astudiaeth o ansawdd cymedrol ar ymgyrchoedd cenedlaethol yn y cyfryngau yn targedu gweithwyr. Gwerthusodd y ddau Diwrnod Cerdded i'r Gwaith Awstralia, ond mewn blynyddoedd gwahanol. Mae ymgyrch Diwrnod Cerdded i'r Gwaith y cyfryngau yn ddigwyddiad blynyddol yn Awstralia lle mae'r cyhoedd yn cael eu hannog i gerdded neu feicio i'r gwaith.

Ansawdd y dystiolaeth: Roedd y ddwy astudiaeth o ansawdd cymedrol a chanfuwyd effaith arwyddocaol ar ganlyniadau teithio llesol (cerdded wedi ei gyfuno â thrafnidiaeth gyhoeddus, a chymudo gweithredol sydd yn gwella iechyd).

Cymhwysedd: Cynhaliwyd y ddwy astudiaeth yn Awstralia felly mae angen ymchwilio cymhwysedd y canfyddiadau hyn i Gymru ymhellach.

Os byddwch yn parhau â'r ymyrraeth yma: Awgrymir bod archwiliad manwl o'r sail dystiolaeth yn cael ei chynnal, gan ystyried cyd-destun yr ymyrraeth, i gefnogi dylunio a gweithredu. Dylid cynnal gwerthusiad trylwyr o effaith hefyd.



Mae gan **fentrau aml-gydran yn cynnwys newidiadau i'r amgylchedd adeiledig neu seilwaith a mentrau a/neu gyfyngiadau yn y gweithle i annog teithio llesol i'r gwaith** sail dystiolaeth anghyson.^{1, 7, 16, 70}

